

Gwneud elw'r chwe chyflenwr ynni mwyaf yn glir

Er mwyn helpu defnyddwyr i ddeall refeniw, costau ac elw cyflenwyr ynni, mae Ofgem yn ei gwneud yn ofynnol i'r chwe chyflenwr mwyaf lunio datganiadau ariannol blynyddol. Mae'r daflen ffeithiau hon yn canolbwyntio ar yr elw a wnaed gan y cwmnïau yn ystod 2012.

Y chwe chwmni ynni mwyaf yw Centrica, EDF Energy, EON, RWE npower, Scottish Power a SSE. Mae pob un ohonynt yn cynhyrchu trydan ac yn cyflenwi trydan a nwy i gartrefi a busnesau. Maent hefyd yn masnachu rhwng rhannau gwahanol o'u busnesau, ym Mhrydain a thramor.

Mae Ofgem wedi arwain y blaen wrth wneud elw'r busnesau cymhleth hyn yn gliriach. Ers 2009, rydym wedi ei gwneud yn ofynnol iddynt gyhoeddi datganiadau blynyddol sy'n dangos, ar wahân, y refeniw, costau ac elw ru gweithgareddau cynhyrchu a chyflenwi. Mae Ofgem hefyd wedi sicrhau y caiff y datganiadau hyn eu hadolygu'n annibynnol a'u bod yn gyson â chyfrifon archwiliedig y cwmnïau.

Beth mae datganiadau 2012 yn ei ddangos?

Mae'r datganiadau yn dangos bod elw cyffredinol pob un o'r chwe chyflenwr, o ran cyflenwi a chynhyrchu ynni, wedi gostwng o £3.9 biliwn yn 2011 i £3.7 biliwn yn 2012. Fodd bynnag, cynyddodd elw o ran cyflenwi cartrefi a busnesau o £1.25 biliwn yn 2011 i £1.6 biliwn yn 2012.

Mae'r tabl isod yn dangos biliau cyfartalog cartrefi rhwng 2010 a 2012 ynghyd ag elw cyfartalog cyflenwyr fesul cwsmer cartref, a maint cyfartalog yr elw o ran cyflenwi cartrefi.

	Bil blynyddol cyfartalog cartref ar gyfer trydan a nwy	Elw cyflenwr fesul cwsmer cartref	Maint yr elw o ran cyflenwi cwsmeriaid cartrefi
2012	£1,174	£53	4.3%
2011	£1,006	£30	2.8%
2010	£1,063	£35	3%

Mae'r gwahaniaeth rhwng ffigurau bil cyfartalog a ffigurau elw cyflenwyr yn cynrychioli cyfanswm costau blynyddol cyflenwyr am brynu a gwerthu ynni a rhedeg eu busnesau.

A yw'r chwe chyflenwr mwyaf yn gwneud elw teg o ddefnyddwyr?

Nid hawl mo gwneud elw. Dylai gael ei ennill gan gyflenwyr ar sail denu a chadw cwsmeriaid, cynnig prisiau cystadleuol, y cynhyrchion cywir a gwasanaeth cwsmeriaid da. Mae pa mor effeithlon y mae cyflenwyr yn rhedeg eu busnesau hefyd yn pennu'r elw a wneir ganddynt.

Dangosodd ein dadansoddiad yn 2011 nad oedd y farchnad fanwerthu gyfan yn gweithredu mewn ffordd a oedd yn rhoi digon o bwysau cystadleuol ar gyflenwyr. Dyma pam rydym wedi cyflwyno'r diwygiadau mwyaf ysgubol i'r farchnad fanwerthu ers i gystadlaeth ddechrau. Bydd y diwygiadau hyn yn chwalo'r rhwystrau sy'n atal defnyddwyr rhag cael y fargen orau drwy wneud y farchnad yn fwy syml, clir a theg.


Hyd yma, caiff bron 2 filiwn o gwsmeriaid eu cyflenwi gan gyflenwyr annibynnol. Ac rydym yn cynnig newidiadau mawr i agor y farchnad trydan cyfanwerthu er mwyn ei gwneud yn haws i gyflenwyr annibynnol a chyflenwyr newydd gystadlu'n effeithiol â'r chwe chyflenwr mwyaf.

Mae'r diwygiadau hyn yn cynnwys ei gwneud yn ofynnol i'r chwe chyflenwr ynni mwyaf gyhoeddi'r pris y byddant yn masnachu ynni cyfanwerthu hyd at ddwy flynedd ymlaen llaw. Bydd hefyd angen i'r chwe chyflenwr ynni mwyaf a'r ddau gynhyrchydd annibynnol mwyaf gydymffurfio â rheolau sy'n golygu bod yn rhaid iddynt negodi'n deg ag unrhyw gyflenwr annibynnol sydd am brynu ynni cyfanwerthu.


Gallwch ddarllen mwy am ein diwygiadau i wneud y farchnad fanwerthu yn fwy syml, clir a theg [yma](#)

A gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein cynigion i agor y farchnad ynni cyfanwerthu [yma](#)

Graff 1: Yn y graff isod rydym yn dangos maint yr elw a wnaed ar gyfartaledd rhwng 2009 a 2012 ar gyfer pob rhan o fusnesau cyflenwi y chwe chwmni mwyaf (Cyflenwad cyffredinol) ac yna faint yr elw ar gyfer rhannau unigol o'u busnesau cyflenwi.



Graff 2: Mae'r graff hwn yn dangos maint yr elw a wnaed gan bob cwmni am gyflenwi nwy a thrydan i gartrefi a busnesau yn ystod 2012. Pan gaiff y meintiau hyn eu cyfuno, maent yn cynhyrchu'r maint cyfartalog ar gyfer 2012 ar gyfer pob un o'r chwe cwmni o dan 'Cyflenwad cyffredinol' yng Nghraff 1.



Gwahaniaethau rhwng maint yr elw o ran cyflenwi a chynhyrchu

Roedd maint elw cyfartalog y chwe chyflenwr mwyaf o ran cynhyrchu yn 2012 yn 20 y cant o gymharu â 24 y cant yn 2011. Mae meintiau elw o ran cynhyrchu yn uwch na'r ochr gyflenwi am fod rhannau cyflenwi a chynhyrchu busnesau cyflenwyr yn wahanol iawn.

Mae angen i ran gynhyrchu busnes cyflenwr fuddsoddi arian sylweddol yn yr hirdymor wrth adeiladu gorsafoedd ynni newydd. Felly, mae angen gwneud mwy o elw er mwyn sicrhau bod y cwmnïau yn gallu fforddio'r buddsoddiad hwn. Nid oes angen i ochr gyflenwi'r busnes wneud buddsoddiadau o'r fath.

Wrth fynd ymlaen, byddwn yn ystyried a ddylai cwmnïau ddarparu mesurau elw ychwanegol o ran cynhyrchu ynni sy'n ystyried buddsoddiad cyfalaf.

Sicrhau y caiff y datganiadau eu llunio'n briodol

Cydnabyddwn fod defnyddwyr am wybod a yw datganiadau ariannol cwmnïau yn rhoi darlun cywir a theg o'u costau a'u helw. Mae'r datganiadau hyn hefyd yn ddangosydd y mae Ofgem yn ei ddefnyddio i benderfynu pa mor dda y mae'r farchnad yn gweithio.

Dangosodd adolygiad a gynhaliwyd ar ein rhan gan y cwmni cyfrifyddu BDO yn 2011 fod y dull a ddefnyddir gan y cwmnïau i lunio'r datganiadau yn deg ac yn briodol ar y cyfan.

Yn dilyn argymhellion yr adolygiad, gwnaeth Ofgem newidiadau i'r ffordd y caiff datganiadau eu llunio gan y cwmnïau er mwyn eu gwneud yn fwy clir a chymaradwy. Roedd y rhain yn cynnwys gofyniad bod y datganiadau yn gyson â'u cyfrifon ariannol archwiledig a rheolau mwy rhagnodol o ran sut y caiff costau eu dyrannu.

Rhagor o wybodaeth

Mae'r datganiadau a gyhoeddwyd gan bob cwmni ar gyfer cyfrifon 2009 i 2012 ar gael [yma](#)

Ar gyfer ymholiadau gan y cyhoedd, cysylltwch â:

Tim Materion Defnyddwyr

020 7901 7295

e-bost: consumeraffairs@ofgem.gov.uk

Ar gyfer ymholiadau gan y cyfryngau, cysylltwch â:

Chris Lock, Uwch Swyddog Cyfathrebu Allanol

020 7901 7225

e-bost: chris.lock@ofgem.gov.uk